# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Rheoli Tir Cymru |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod MS Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Rhagfyr 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones (Cadeirydd), aelod o Fwrdd CNC<br>Ruth Jenkins, CNC<br>Huw Manley, CNC<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Elen G. Richards, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>Dr Rosie Plummer, aelod o Fwrdd CNC<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad<br>Elaine Heckley, Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor)<br>Hedd Pugh, NFU Cymru<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant |
| **Unigolion eraill yn bresennol:** | Naomi Mattiessen, Llywodraeth Cymru<br>Stacey Delbridge, CNC<br>Gail Merriman, Llywodraeth Cymru<br>Ann Burgoyne, Llywodraeth Cymru<br>Chris Tucker, CNC<br>Mel Meaden, CNC<br>Iwan Parry, Tilhill<br>Iwan Lloyd Williams<br>Yr Athro John Healey<br>Maria Wilding<br>Sarah Wymer<br>Heidi Pawlin, CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>John Browne, CNC<br>Tim Kirk, Confor<br>Angharad Davies, CFfI Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau. Soniodd Rhys fod gan y cyfarfod hwn thema

‘coedwigaeth’ a chroesawodd aelodau’r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth a’r cyflwynwyr gwadd i’r cyfarfod.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â’r eitemau i’w hystyried ar yr agenda.

## Eitem 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu, a materion sy’n codi

3. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi’u hadolygu, ac y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan yr aelodau, byddant yn cael eu cyfieithu ac wedyn eu cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2024 a’u cymeradwyo fel cofnodion cywir.

4. Adolygodd y grŵp y camau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd, a chafwyd y diweddariad ar lafar.

## Eitem 3. Coedwig Genedlaethol Cymru

5. Ymunodd Stacey Delbridge, CNC, â’r cyfarfod i roi trosolwg a’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae Coedwig Genedlaethol Cymru yn ymwneud â bod yn rhan o rywbeth unigryw i bobl Cymru. Bydd adeiladu rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru yn:
    - gwella’r amgylchedd
    - creu cyfleoedd economaidd
    - helpu cymunedau i gysylltu â’r coetiroedd o’u cwmpas, a’u gwerthfawrogi

6. Mae meddu ar statws Coedwig Genedlaethol Cymru yn rhoi’r canlynol i goetiroedd:
    - cydnabyddiaeth o fod yn goetir canmoladwy
    - cyfle i fod yn etifeddiaeth hirbarhaol i genedlaethau’r dyfodol
    - cyfle i fod yn aelod o rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru

7. Trafododd Stacey deilliannau’r Goedwig Genedlaethol, dangosodd rai lluniau o wahanol safleoedd, disgrifiodd y rhwydwaith, amlinellodd negeseuon cyfathrebu â’r cyhoedd a oedd yn mynd rhagddynt a strwythur y tîm, a rhoddodd grynodeb o’r broses ymgeisio a’r rhesymau dros ymuno â’r Goedwig Genedlaethol.

8. Gofynnodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, am gyllid y Goedwig Genedlaethol. Cadarnhaodd Stacey ei bod yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

9. Gofynnodd Iwan Lloyd-Williams, Confor, am y gyllideb flynyddol ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru. Dywedodd Stacey y byddai angen iddi wirio’r gyllideb flynyddol eto gyda’r Rheolwr Rhaglen yn Llywodraeth Cymru ac adrodd unrhyw wybodaeth yn ôl i Iwan. Gofynnodd Iwan pam mai dim ond hanner Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd wedi’i gynnwys yng Nghoedwig Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd. Eglurodd Stacey, pan lansiwyd y Goedwig Genedlaethol ym mis Mawrth 2020, bod safleoedd gwreiddiol Coedwig Genedlaethol Cymru wedi’u cyflwyno fel safleoedd enghreifftiol a oedd yn bodloni pob un o’r chwe deilliant. Cyflwynwyd cyfnod arall o leiniau o goetir ym mis Tachwedd 2022. Ar hyn o bryd, mae gennym 26 o leiniau o goetir yn rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru ac mae’r rhain yn cael eu cyflwyno’n raddol wrth iddynt gyflawni’r deilliannau ac yn dangos eu bod yn safleoedd addas ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru. Rydym yn gobeithio cael cyfnod arall o safleoedd Ystad Goetir

Llywodraeth Cymru y flwyddyn nesaf, a'r dyhead yw cynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn y Goedwig Genedlaethol maes o law.

10. Dywedodd Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru, y byddai'n ddiddorol gwybod o ba bortffolio Llywodraeth Cymru y mae'r arian yn dod ohono. Cadarnhaodd Naomi fod yr arian ar gyfer y Goedwig Genedlaethol yn dod o'r gyllideb Hinsawdd a Materion Gwledig.

11. Roedd John Healey wedi amlinellu'r meini prawf ar gyfer barnu ceisiadau gan berchnogion coetir unigol, a nododd y byddai modd ystyried bod y meini prawf hynny'n adlewyrchu amcanion cyffredinol y rhaglen. Gofynnodd John am y weledigaeth hirdymor, a sut olwg fydd ar lwyddiant. Dywedodd Stacey fod y Prif Weinidog blaenorol wedi nodi'r dyhead i gael rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru sy'n gorchuddio hyd a lled y wlad, ac a fyddai'n creu ecosystem gref ac yn adnodd coetir i Gymru. Mae'r deilliannau'n amlbwrpas, ac yn ystyried buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol coetiroedd. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal gwerthusiad canol tymor o'r Goedwig Genedlaethol, gan edrych ar sut y bydd y goedwig yn cael ei datblygu a'i chyflwyno yn y dyfodol.

12. Dywedodd Rhys ei fod yn ymddangos fel cynllun ymatebol i raddau helaeth, y mae pobl yn holi am gael bod yn rhan ohono. O ran y weledigaeth a'r strategaeth hirdymor, sut y bydd bylchau'n cael eu nodi?Dywedodd Stacey fod y tîm yn edrych ar safleoedd posibl, ac wrth i Goedwig Genedlaethol Cymru ehangu, gallwn ddechrau gweld lle mae'r bylchau hynny, a lle mae'r cysylltiadau posibl hynny. Rydym yn defnyddio mapiau i blotio'r safleoedd arfaethedig posibl, ac mae tua 200 o safleoedd (heb gynnwys y 55 sydd eisoes yn rhan o'r rhwydwaith) lle rydym yn siarad â'r rhandeiliaid ac yn gweithio gyda nhw er mwyn ceisio eu cynnwys yn y rhwydwaith yn y dyfodol. Mae'r tîm yn edrych ar safleoedd posibl, yn mynd ati i siarad ag amrywiaeth eang o berchnogion coetiroedd, a hefyd yn mynd i wahanol ddigwyddiadau i hyrwyddo'r Goedwig Genedlaethol.

13. Rhannodd Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, rai o'r adborth a gafwyd gan y rheini sydd eisoes wedi ymuno â'r rhwydwaith, a gofynnodd am unrhyw anfanteision a beth y gellid ei wneud i'w goresgyn. Dywedodd Stacey mai'r prif her wrth gynnwys rhagor o safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru yn y rhwydwaith yw'r cynlluniau rheoli coetiroedd. Nid oes gan bawb gynllun rheoli coetir ar waith, hyd yn oed os ydynt yn rheoli eu coetiroedd yn weithredol. Mae'r ffaith nad oes gan bawb gynllun rheoli ar waith wedi gohirio ein hymdrechion i gael rhagor o safleoedd i ymuno a'r rhwydwaith. Serch hynny, rydym yn cymryd camau i sicrhau bod rhagor o safleoedd yn mabwysiadu'r cynlluniau rheoli coetiroedd hynny.

14. Dywedodd Naomi Matthiessen, Llywodraeth Cymru, ei fod yn gyfnod diddorol i ddylanwadu ar y ffordd y bydd y Goedwig Genedlaethol yn datblygu yn y dyfodol. Rydym yn ceisio bod yn fwy strategol o ran sut yr ydym yn defnyddio'r Goedwig Genedlaethol yng Nghymru, ac mae enghreifftiau yn Lloegr yn dangos bod modd gwneud hynny ar y lefel ranbarthol mewn gwirionedd. Byddai hynny'n ddefnyddiol wrth fynd ati i ymgysylltu ar y lefel gymunedol ranbarthol honno. Mae enghreifftiau wedi dangos pa mor bwysig yw gweithredu ar y lefel ranbarthol o ran sicrhau ymgysylltu, a chael y buddion a'r deilliannau a ddymunir o'r coetiroedd hynny. Mae'n gyfnod cyffrous wrth inni fynd ati i gychwyn ar y cam nesaf hwn o'r Goedwig Genedlaethol, a bydd mewnbwn gan y grŵp hwn ar sut y gallwn ei datblygu a'i gwella yn ddefnyddiol iawn.

15. Dywedodd Elaine Heckley, Confor, ein bod yn cael trafferth wirioneddol gyda chynlluniau rheoli CNC. Nid yw llawer o goedwigoedd Cymru yn destun cynlluniau rheoli coetiroedd ar hyn o bryd, oherwydd eu bod yn eithaf anodd eu gwneud wrth wneud cais i fod yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol. Gofynnodd Elaine a ydynt yn dilyn cynllun rheoli coedwigoedd CNC neu'n defnyddio cynllun rheoli gwahanol, beth yw'r meini prawf, pwy sy'n eu hasesu, a faint o goedwigwyr proffesiynol sy'n rhan o'ch tîm. Dywedodd Stacey fod y canllawiau presennol ar gyfer cynlluniau rheoli Coedwig Genedlaethol Cymru yn cael eu llywio gan Safon Coedwigaeth y DU. Nid ydym yn ddilysydd: ein rôl yw hyrwyddo'r Goedwig Genedlaethol a dwyn perswâd ar bobl i ymuno â'r rhwydwaith. Rydym wedi nodi bod angen inni ddatblygu'r cynlluniau rheoli (e.e. creu templed da). Nododd Elaine fod templedi gwahanol yn cael eu datblygu a'i bod yn bwysig bod popeth yn cydgysylltu.

***Cam gweithredu Rhagfyr 01: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r cyflwyniad am Goedwig Genedlaethol Cymru.***

## Eitem 4. Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Coedwigaeth

16. Rhoddodd Naomi Matthyessen, Llywodraeth Cymru, gyflwyniad yn trafod yr elfennau'n ymwneud â choedwigaeth yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun yn ei gyfanrwydd, trosolwg o Gam Gweithredu Cyffredinol 11: Rheoli Gwrychoedd, Cam Gweithredu Cyffredinol 12: Cynnal a Chadw Coetiroedd, a Cham Gweithredu Cyffredinol 13: Cynllun ar gyfer y Cyfleoedd i Blannu Coed a Chreu Gwrychoedd, ynghyd â chrynodeb o'r camau nesaf.

17. Gofynnodd John am y dystiolaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan y Panel Atafaelu Carbon, ac a oeddent wedi nodi unrhyw opsiynau amgen sy'n ymarferol yn economaidd ac yn dechnegol i gynyddu faint o goed sy'n cael eu plannu, yn enwedig coed sy'n tyfu'n gyflym, fel ffordd o gyrraedd targedau sero net ar lefel y fferm, ar lefel y dirwedd neu ar y lefel genedlaethol. Dywedodd Naomi fod y Panel Atafaelu Carbon wedi nodi nifer o opsiynau ychwanegol ar gyfer atafaelu carbon ar ffermydd y gellid eu hystyried ar y lefel ddewisol ac nid y lefel gyffredinol – mae angen gwneud rhagor o waith i'w datblygu ac, o bosibl, eu cynnwys yn y cynllun yn y dyfodol. Y pwynt allweddol oedd na ddaeth y panel o hyd i unrhyw beth y gellid ei roi ar waith ar y lefel gyffredinol honno ac a oedd yn addas i bob un fferm yng Nghymru.

18. Soniodd Hedd Pugh, NFU Cymru, eu bod wedi trosglwyddo'r cynllun i'w haelodau yn ystod sioe deithiol NFU Cymru yn ddiweddar. Mae adborth gan eu haelodau'n awgrymu bod rhai pryderon am y cynllun o hyd, yn enwedig mewn perthynas â'r targed bod o leiaf 10% o dir pob fferm yn cael ei reoli fel cynefin ar gyfer bywyd gwyllt, a'r pethau hynny sy'n cyfrif, neu nad ydynt yn cyfrif, tuag at y targed hwnnw (e.e. waliau cerrig ac ati). Fodd bynnag, mae gan yr aelodau barn fwy ffafriol o lawer o'r cynllun ar y cyfan na chwe mis yn ôl.

19. Dywedodd Fraser fod aelodau o Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad wedi bod yn obeithiol, i raddau, pan oeddent wedi rhannu gwybodaeth yn y ffair aeaf yn ddiweddar. Mae yna dal i fod materion i fynd i'r afael â nhw o ran cyllidebau a chyfraddau talu sy'n rhwystro cynnydd.

20. Soniodd Gareth am yr adborth tebyg a gafwyd gan aelodau Undeb Amaethwyr Cymru. Mae aelodau'n dechrau gofyn cwestiynau technegol na allwn ni eu hateb eto gan nad yw'r manylion ar gael eto.

21. Soniodd Dennis fod tenantiaid wedi'u hesemptio rhag y gofyniad i neilltuo 10% o'i dir ar gyfer coed beth amser yn ôl, ond nid yw hyn yn berthnasol mwyach. Rydym yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi dweud, os na all tenantiaid wneud unrhyw rai o'r camau gweithredu cyffredinol oherwydd cymalau yn eu cytundeb, ni fydd yn rhaid iddynt eu gwneud. Nid yw hyn yn esemptiad cyffredinol i bob tenant, ond mae'n rhywbeth sy'n mynd i gael ei benderfynu fesul fferm, sy'n ymddangos yn synhwyrol.

22. Croesawodd Naomi yr adborth gan y grŵp ac unrhyw adborth pellach gan randdeiliaid. Cydnabu Naomi fod y manylion yn hollbwysig, a bod Llywodraeth Cymru wir am barhau â'r dull cydweithredol o lunio manylion terfynol y cynllun. Roedd Naomi'n hapus i gael sgwrs ddilynol â Dennis ynghylch tenantiaethau a grantiau.

23. Trafododd y grŵp y cyfleoedd a fyddai'n cael eu creu gan strategaeth defnydd tir i Gymru, yn enwedig o ran plannu coed, tir cynhyrchiol ar gyfer cynhyrchu bwyd, a diogelu cynefinoedd a'r amgylchedd. Nodwyd y bydd yn ddiddorol gweld canlyniad y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer Lloegr.

***Cam gweithredu Rhagfyr 02: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r cyflwyniad am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.***

## Eitem 5. Strategaeth Ddiwydiannol Pren

24. Ymunodd Gail Merriman ac Ann Burgoyne, Llywodraeth Cymru, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ddatblygiad y Strategaeth Ddiwydiannol Pren (a'r cynllun sgiliau cysylltiedig), ac i dynnu sylw at yr ymgynghoriad arfaethedig.

25. Bydd y Strategaeth Ddiwydiannol Pren yn nodi ymrwymiadau i'r sector, sydd â rhan hanfodol i'w chwarae yn nyfodol amgylcheddol ac economaidd Cymru. Mae'r strategaeth yn edrych ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, o feithrinfeydd coedwigoedd i'r defnydd terfynol o bren. Fel rhan o'r strategaeth hon, bydd cynllun sgiliau ar gyfer y sector coedwigaeth a phren. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion yn agor ar 31 Ionawr 2025 am 12 wythnos. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod hwnnw, a bydd fersiwn derfynol o'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi cyn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn haf 2025. Nod yr ymarfer hwn yw cynyddu gwerth y sector yng Nghymru, a symud tuag at gynhyrchu cynhyrchion pren gwerth uwch yng Nghymru. Mae gweithgor wedi'i sefydlu i gefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith hwn, ac mae rhai aelodau ohono yn rhan o'r cyfarfod hwn.

26. Soniodd Ann mai nod y Cynllun Sgiliau Coedwigaeth a Phren yw cefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol Pren i ddefnyddio pren at ddibenion gwerth uwch, yn benodol i ddefnyddio pren mewn adeiladu, ac i gael gweithlu medrus o fewn y sectorau coedwigaeth a phren.

27. Bu'r grŵp yn trafod y cyfle i integreiddio gwahanol fentrau drwy ystyried y gadwyn gyflenwi hyd at y defnydd o'r cynnyrch terfynol. Nododd Naomi fod y Strategaeth Ddiwydiannol Pren wedi bod yn enghraifft dda iawn o ble mae ymdrechion sylweddol iawn wedi'u gwneud i geisio dod â'r holl fuddiannau gwahanol hynny ynghyd, a chael trosolwg strategol.

28. Atgoffodd Gail y grŵp y bydd rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei chynnal yn ystod 12 wythnos yr ymgynghoriad agored. Byddai

Llywodraeth Cymru wir yn gwerthfawrogi mewnbwn a chyngor, a chroesawodd y grŵp i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

29. Gofynnodd Gareth a oedd y diwydiant amaeth yn cael ei gynrychioli yn y gweithgor. Dywedodd Gail nad oedd gan y grŵp y mathau hyn o gynrychiolwyr, a'i fod yn weithgor bach iawn a gafodd ei greu ar ôl yr archwiliad dwfn i bren a choed. Fodd bynnag, byddem yn croesawu adborth yn ystod yr ymgynghoriad a'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid arfaethedig, yn enwedig ynghylch cynigion refeniw a'r ffordd orau o gefnogi ffermwyr ar gyfer cyfleoedd i gynhyrchu incwm.

***Cam gweithredu Rhagfyr 03: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r cyflwyniad am y Strategaeth Ddiwydiannol Pren.***

## Eitem 6. Rheoli ceirw a gwiwerod llwyd yng Nghymru

30. Rhoddodd Chris Tucker, CNC, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am reoli ceirw a gwiwerod llwyd yng Nghymru.

31. Mae pum rhywogaeth o geirw yn y gwyllt yng Nghymru –
    - Cynhenid:
        - Carw coch (*Cervus elaphus*)
        - Iwrch (*Capreolus capreolus*)
    - Wedi cynefino:
        - Danas (*Dama dama*)
    - Estron:
        - Carw sica (*Cervus nippon*)
        - Carw mwntjac (*Muntiacus reevesi*)

32. Cyhoeddwyd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Ceirw Gwyllt yng Nghymru yn 2011 gyda'r weledigaeth ganlynol: "Mae Cymru'n elwa o'i phoblogaeth o geirw gwyllt mewn cydbwysedd â'r amgylchedd naturiol, cymdeithasol ac economaidd." Wedi hynny, datblygwyd cynllun gweithredu yn 2018.

33. Mae ceirw yn effeithio ar y canlynol: y gallu i gyflawni deilliannau Strategaeth Coetiroedd i Gymru, amaethyddiaeth a datblygu gwledig, y gallu i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth, a'r broses o greu coetiroedd ar gyfer atafaelu carbon. Gall amaethyddiaeth, coedwigaeth a choetiroedd eraill hefyd ddioddef effeithiau economaidd gan geirw. Mae'n debygol hefyd y bydd cynnydd yn nifer y cerbydau sy'n taro ceirw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

34. Yn yr ardaloedd hynny lle deuir ar draws ceirw, dylid datblygu a gweithredu mesurau ar gyfer rheoli ceirw fel rhan o gynllun rheoli, gyda'r nod na fydd ceirw sy'n pori yn atal aildyfiant coed neu ddatblygiad coedwigoedd gwydn. Yn ddelfrydol, bydd y mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith mewn cydweithrediad â chymdogion, neu fel rhan o grŵp rheoli ceirw.

35. Mae gwiwerod llwyd yn rhywogaeth estron, ac wedi bod yng Nghymru ers tua 120 o flynyddoedd. Cânt eu dosbarthu fel rhywogaeth estron oresgynnol. Maent yn eang eu gwasgariad (yn gorchuddio 95% o Gymru), ac amcangyfrifir, fel ffigur ceidwadol, bod 283,000 ohonynt yng Nghymru a bod maint y boblogaeth yn tyfu. Dangosodd Chris fap o wasgariad y gwiwer llwyd o Gytundeb Gwiwerod y DU a oedd yn dangos eu bod yn

bresennol ledled Cymru, heblaw Ynys Môn. Yn y canolbarth, ac yng Nghlocaenog yn Sir Ddinbych, ceir gwiwerod llwyd a gwiwerod coch.

36. Tynnodd Chris sylw at rai o effeithiau gwiwerod llwyd, gan gynnwys:
    - Difrod i goed a bioamrywiaeth
    - Tynnu rhisgl coed pren caled rhwng 15 a 40 oed, gan gael yr effeithiau canlynol:
        - Lladd coed
        - Gwaethygu ansawdd pren
        - Lleihau'r amrywiaeth o rywogaethau coed, ac felly'n lleihau bioamrywiaeth coetiroedd
        - Lleihau faint o garbon sy'n cael ei atafaelu, gan effeithio'n negyddol felly ar ymdrechion i liniaru'r newid yn yr hinsawdd
    - Effeithiau penodol ar wiwerod coch brodorol:
        - Cystadleuaeth mewn coetiroedd brodorol
        - Trosglwyddo feirws brech y wiwer, a chlefydau eraill, i wiwerod coch
    - Difrod i ddeunydd inswleiddio'r atig a gwifrau

37. Mae rheolaeth bresennol yn canolbwyntio ar dri safle ar gyfer gwarchod gwiwerod coch. Yn y safleoedd hyn, maent yn rheoli gwiwerod llwyd i leihau eu heffaith ar boblogaethau gwiwerod coch. Mae sectorau coedwigaeth hefyd yn rheoli gwiwerod llwyd i leihau eu heffaith ar gynhyrchu pren caled. Gallai rheolaeth bosibl yn y dyfodol gynnwys dulliau atal cenhedlu trwy'r system imiwnedd – Cytundeb Gwiwerod y DU a phrosiect datblygu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Mae gwaith modelu yn dangos effeithiolrwydd ochr yn ochr â mesurau rheoli eraill. Caiff y canlynol eu hystyried wrth roi mesurau ar gyfer rheoli gwiwerod llwyd ar waith yn y dyfodol: Fforwm Gwiwerod Cymru, ymwybyddiaeth, hyfforddiant, argaeledd dulliau atal cenhedlu trwy'r system imiwnedd, adnoddau/cyllid, dull cydlynol o reoli ar raddfa'r dirwedd, ac, o bosibl, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

38. Dywedodd Naomi fod ganddi ddiddordeb mewn cael cyfarfod dilynol â Chris ynghylch rheoli ceirw a gwiwerod llwyd, ac am pa bethau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud. Dywedodd Chris fod croeso i'r grŵp gysylltu ag ef am unrhyw drafodaethau pellach ar geirw neu wiwerod.

39. Gofynnodd Elaine a fu adolygiad o gynllun gweithredu'r Strategaeth Ceirw o 2018. Dywedodd Chris fod gan y Strategaeth Ceirw gynllun gweithredu pan gafodd ei lansio gyntaf, a gafodd ei adolygu wedyn yn 2018. Cytunodd y grŵp y byddai adolygiad arall o'r Strategaeth Ceirw yn y dyfodol yn ddefnyddiol.

40. Gofynnodd Elaine am y ffactorau a allai rwystro unrhyw ymdrechion i sefydlu marchnad cig carw ffyniannus yng Nghymru. Dywedodd Chris fod llawer o gig carw yn mynd i werthwyr anifeiliaid hela, sy'n gweithio yn Lloegr yn gyffredinol. Efallai y daw rhywfaint o'r cynnyrch terfynol yn ôl i Gymru, ond nid oes modd inni olrhain faint. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ymwybodol ohono o ran gallu ei farchnata fel cynnyrch o Gymru. Un o'r prif bethau i'w hystyried yw'r ffaith nad yw pris cig carw yn uchel iawn. Mae rhai pobl yn ei chael yn anodd rheoli ceirw mewn coetiroedd oherwydd bod llai o farchnad nag a fu yn y gorffennol. Awgrymodd Elaine fod angen marchnata a hyrwyddo gwell drwy bethau fel 'Blas Cymru' – efallai fod angen meddwl mwy am hyn ac mae'n gyfle i weithio mewn partneriaeth.

41. Soniodd Elaine nad oes cyllid grant ar gael ar hyn o bryd i helpu i reoli gwiwerod llwyd yng Nghymru, a gofynnodd a ellid ystyried ariannu gwyrdd fel datrysiad posibl. Soniodd

Rhys fod Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar gyllid cynaliadwy a chyllid gwyrdd, ac efallai y bydd rhywfaint o gynnydd ar hynny yn y dyfodol.

42. Soniodd Dennis am y ffaith bod Llywodraeth y DU yn arfer talu taliad y pen ar gynffonau gwiwerod fel dull rheoli, ond daeth hynny i ben amser maith yn ôl. Soniodd Dennis fod gan yr ystad leol staff coedwigaeth yn flaenorol a oedd yn procio nythod gwiwerod i reoli eu niferoedd. Roedd hyn yn ddull llwyddiannus iawn, ond nid ydynt yn cyflogi staff bellach. Roedd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent brosiect i ailgyflwyno belaod i ganolbarth Cymru, a nhw yw prif ysglyfaethwyr gwiwerod llwyd. Roedd Dennis yn ansicr o statws y prosiect hwnnw, ac a wnaed cynnydd yn ei gylch. Yn ogystal, yng Nghanada mae gwiwerod llwyd yn ddanteithfwyd – efallai fod cyfle yma. O ran cig carw, dylai fod gwell marchnata yng Nghymru gan mai dyma'r math gorau o gig colesterol isel. Mae rhai yn dweud ei fod yn rhad mewn siopau, ond yn y cigyddion mae'n ddrud iawn. Dywedodd Chris nad yw'r pris a gewch fesul cilogram pan fyddwch chi'n ei werthu i ddeliwr anifeiliaid hela yn uchel iawn, ond pan fyddwch chi'n ei weld yn y siopau mae'n eithaf drud.

43. Trafododd y grŵp bwysigrwydd system reoli i gyflawni buddion lluosog a deilliannau cadarnhaol. Bydd dod â phartneriaethau ynghyd hefyd yn helpu i gefnogi rheoli ehangach ar raddfa'r dirwedd.

44. Gofynnodd Rosie Plummer, aelod o Fwrdd CNC, a oes unrhyw waith modelu wedi'i wneud i edrych ar effaith a datblygiad y rhywogaeth. Gwyddom fod gwiwerod, er enghraifft, yn llai presennol mewn ardaloedd ynysig sydd wedi'u datgysylltu o'r coetir ehangach. Dywedodd Chris fod cynyddu cysylltedd yn ei gwneud yn haws i rywogaethau symud o gwmpas y dirwedd. Rydym wedi edrych ar wahanol bethau i geisio deall maint y difrod – y difrod uniongyrchol a'r difrod economaidd, fel ei gilydd. Mae llawer o ffactorau i'w hystyried megis argaeledd bwyd, a fyddai'n amrywio o safle i safle a thrwy gydol y flwyddyn. Soniodd Chris am rôl cyrsiau hyfforddi, a gwyddoniaeth dinasyddion, wrth fynd ati i gofnodi'r difrod a achosir gan geirw a gwiwerod llwyd.

***Cam gweithredu Rhagfyr 04: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r cyflwyniad am reoli ceirw a gwiwerod llwyd.***

## Eitem 7. Cyflwyniadau gan y Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor)

45. Cafwyd cyflwyniad gan Iwan Parry ar astudiaeth achos o greu coetir ar fferm yn Sir Gaerfyrddin. Fferm fynydd gymysg yw hon â thua 250 erw (101 hectar). Yn wreiddiol, roedd ganddi 800 o ddefaid a 60 o wartheg. Yn y 1980au a'r 1990au, cafodd y fferm fudd o grantiau gwahanol a alluogodd y sawl oedd yn gweithio ar y fferm i wneud gwelliannau wrth gynhyrchu incwm. Nododd Iwan, yn anffodus, na allai'r fferm gynnal tri theulu, felly symudodd y meibion i ffwrdd i weithio. Wrth i'r rhieni heneiddio a chael trafferth gwneud elw o'r fferm, ym 1991 daeth un mab yn ôl i'r fferm, gan gael morgais i brynu'r fferm. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, roedd angen iddo gynyddu nifer y stoc i geisio gwneud elw o'r fferm.

46. Fel rhan o'r broses o ddatblygu ei fenter fferm, ym 1997 fe welodd y ffermwr gyfle. Plannodd y ffermwr glawdd rhedyn gan ddefnyddio grant cymorth (12 hectar gyda ffynidwydd Douglas a sbriws Sitca). Nid oedd hyn yn costio dim i'r ffermwr, ac roedd eisoes wedi ystyried y tir hwnnw yn anghynhyrchiol, beth bynnag. Mae'r ffermwr newydd gyflwyno trwydded cwympo coed ar gyfer teneuo'r coetir hwn a blannodd ym

1997, a fydd yn dechrau cynhyrchu incwm iddo. Yn y cyfamser, derbyniodd daliadau'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd am ddeng mlynedd (hen gynllun).

47. Cafodd y ffermwr drafferth gwneud elwa o'r fferm, ac roedd yn rhaid iddo weithio oriau hir iawn i gynhyrchu lefelau isel o incwm. Roedd hyn yn ei orfodi i fynd i gontractio a lleihau nifer y defaid a'r gwartheg oedd ar y fferm er mwyn iddo allu cynhyrchu incwm i dalu'r morgais, ond hefyd i geisio gwneud ei deulu'n fwy sefydlog yn ariannol.

48. Yn 2010, penderfynodd y ffermwr ddechrau cynhyrchu bwyd organig, a oedd yn caniatáu iddo leihau nifer ei stoc ymhellach a rhyddhau rhagor o amser ar gyfer contractio. Yn 2023, edrychodd ar blannu ar rannau o'r fferm drwy gynllun Glastir – Creu Coetir i gynhyrchu incwm heb orfod ymroi o'i amser a'i ymdrechion ei hun. Plannodd 37 hectar ar y fferm, gan adael 52 hectar er mwyn gallu parhau i ffermio, a dim ond gyda defaid. Plannodd cynllun Glastir – Creu Coetir y 37 hectar, gan osod ffensys hefyd, ac nid oedd yn rhaid iddo dalu dim byd. Mae'n cynhyrchu incwm o £20,000 y flwyddyn am 12 mlynedd (cyfanswm o £240,000). Byddai'n disgwyl dechrau cynhyrchu incwm o werthu pren o Flwyddyn 15 ymlaen, gyda'r mathau newydd gwell o goed. Mae wedi cofrestru'r cynllun plannu coetir ar gyfer carbon drwy'r Cod Carbon, ac mae ganddo incwm amcangyfrifedig o £180,000 ym Mlwyddyn 2 os yw'n penderfynu gwerthu'r credydau carbon – yn ddi-dreth. Er hynny, does dim rhaid iddo werthu ei garbon ar unwaith; gallai ganiatáu i'r carbon hwnnw gronni.

49. Esboniodd Iwan fod pobl yn aml yn dweud wrthom ni fod y grantiau ar gyfer plannu coetiroedd yng Nghymru yn mynd i bobl sy'n byw y tu allan i Gymru, ond mewn gwirionedd mae'r bobl hynny sy'n elwa o'r grantiau hyn yn bobl leol 99% o'r amser. Yn yr astudiaeth achos hon, cafodd y gymuned ac economi leol fudd o'r grant cymorth, gan gynnwys contractwyr, rheolwyr a meithrinfeydd lleol a'r rhai oedd yn darparu deunyddiau'r ffensys ac ati.

50. Mae coetir newydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i ffermwyr arallgyfeirio a datblygu ffrydiau incwm newydd. Bydd coetiroedd newydd yn lliniaru llifogydd, yn atafaelu carbon, yn creu cynefinoedd, yn cynhyrchu pren ar gyfer adeiladu cartrefi, ac yn cyflenwi'r fasnach goed yng Nghymru.

51. Elfen hollbwysig o unrhyw brosiect creu coetir llwyddiannus yw ceisio cyngor proffesiynol cyn i chi gychwyn ar y prosiect, a chael ffeithiau a ffigurau, a chynllun clir, gan gynnwys rhagolwg ariannol. Dylid ymgysylltu â chwmni rheoli coedwigoedd i gyflawni'r cynllun, a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei reoli yn yr hirdymor, gan gynnwys rheoli gwiwerod a cheirw ac ati. Mae gennym gyfrifoldeb i gyflwyno'r ffeithiau i berchnogion tir er mwyn iddynt allu penderfynu a yw'n gyfle da iddynt – undebau'r ffermwyr, Cyswllt Ffermio, cynrychiolwyr o'r sector coedwigaeth, rheoleiddwyr, Llywodraeth Cymru ac ati. Awgrymodd Iwan fod angen i'r rheoleiddiwr hefyd newid ei agwedd at y tir sydd ar gael ar gyfer plannu coed – mae angen asesu cynefinoedd ac nid dim ond eu diystyru.

***Cam gweithredu Rhagfyr 05: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r cyflwyniad am astudiaeth achos o greu coetir ar fferm.***

52. Cafwyd cyflwyniad gan Iwan Lloyd-Williams am sut mae'r sector cyhoeddus yn gweithio gydag CNC i gyflenwi melinau yng Nghymru. Siaradodd Iwan am ystadegau coedwigaeth y DU, ac ystadegau sy'n berthnasol i Gymru. Siaradodd hefyd am sut mae'r sector pren preifat yn prynu pren oddi wrth Ystad Goetir Llywodraeth Cymru drwy

CNC, ac yna disgrifiodd sut olwg y byddai ar sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill i Lywodraeth Cymru ac CNC.

53. Mae 3.2 miliwn o hectarau o goetir yn y DU, ac mae ychydig o dan 10% o'r coetir hwnnw yng Nghymru, h.y. tua 312,000 o hectarau. O hynny, mae 37% yn eiddo i'r sector cyhoeddus a 63% yn eiddo i'r sector preifat. Ond, mewn cyferbyniad, yng Nghymru, mae 77% o'r gorchudd conwydd i'w cael ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, tra bod y sector preifat yn berchen ar 26%.

54. Mae pren o'r ystad gyhoeddus wedi'i ardystio, ac mae'n ofynnol i'r mwyafrif o'r melinau llifio brynu o leiaf 75% o'u pren o goetiroedd ardystiedig er mwyn bodloni eu gofynion ardystio. Y DU yw'r mewnforiwr net ail uchaf o gynhyrchion coedwigoedd, gan fewnforio dros 82% o'n pren o wledydd eraill.

55. Mae diwydiant prosesu iach yng Nghymru a ledled y DU, ac mae 2.9 miliwn o giwbiau o bren wedi'u llifio yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig. Disgrifiodd Iwan y gwahanol gynhyrchion a wneir o'r pren hwn.

56. Mae'r farchnad yn defnyddio tua 9.1 miliwn o fetrau ciwbig o bren o goedwigoedd y DU. Ar hyn o bryd, mae 57% o'r swm hwn yn dod o goetiroedd y sector preifat. Fel diwydiant, rydym bob amser yn ymwybodol o sut rydym yn cael ein gweld gan y cyhoedd, ac mae'n dda atgoffa ein hunain o bwysigrwydd y diwydiant yma yng Nghymru. Rhoddodd Iwan grynodeb o'r llu o fuddion o'r sector coedwigaeth fodern yng Nghymru, gan gynnwys yr economi, carbon, swyddi, ffermio, lleihau'r perygl o lifogydd, lleoedd i grwydro a chynefinoedd i fywyd gwyllt.

57. Disgrifiodd Iwan y broses o brynu pren. Gall rheolwyr coedwigoedd, fel Tilhill, gynnig pren i'r farchnad, neu gellir negodi'n uniongyrchol â pherchnogion coetiroedd. Gallant fod yn werthiannau arferol, pan fo tendrau'n cael eu cynnig yn uniongyrchol i gwmnïau addas neu barseli negodi ar-lein, ac fe allant fod â chytundebau hirdymor. O ran CNC, mae cynllun marchnata pren â phedwar gwerthiant y flwyddyn, ac mae'r rheini'n werthiannau lle gall y rhai sydd wedi cofrestru wneud cais.

58. Mae contractwyr yn hanfodol i bopeth a wnawn. Rhoddodd Iwan drosolwg o'r tasgau sy'n rhan o'r broses, o dorri coed, cymryd y pren i ymyl y ffordd, a'i gludo'n uniongyrchol i'r melinau llifio. Mae cael yr adnoddau cywir, ynghyd â'r profiad a chymhwysedd cywir, yn hanfodol. Mae llawer o bethau i'w hystyried wrth brynu pren – er enghraifft, diogelwch, yr amgylchedd, bywyd gwyllt, cyfleusterau, argaeledd/adnoddau contractwyr a gofynion/amrywiadau'r farchnad.

59. Gall pob un ohonom wneud yn well fel diwydiant i sicrhau dyfodol llewyrchus. Er mwyn gwireddu hyn, mae angen i'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant ddeall pwysigrwydd y diwydiant coed o ran rheoli coedwigoedd mewn ffordd gynaliadwy. Yn anffodus, nid yw hyn bob amser yn wir. Wrth siarad â choedwigwyr a rheolwyr contractau, mae rheoli coedwigaeth a choetiroedd ar gyfer cynhyrchu pren yn aml yn isel iawn ar yr agenda. Mae incwm a gynhyrchir o werthu coed yn helpu i gefnogi buddion ehangach cydweithio Ystad Goetir Llywodraeth Cymru â'r sector preifat – byddai hefyd yn helpu i wella melinau yng Nghymru. Mae'r diwydiant prosesu yn gallu buddsoddi mewn seilwaith yng Nghymru. Pe bai'r swm ar gael, byddai hyn nid yn unig yn cefnogi economi Cymru, ond hefyd yn lleihau faint o filltiroedd y mae pren yn eu teithio wrth gael ei gludo. Mae cyfle hefyd i gynyddu refeniw. Ar hyn o bryd, mae'r swm a gynigir i'r farchnad gan Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar waelod yr amrediad. Byddai cyflenwi

swm mwy cyson o bren i'r farchnad yn rhoi sicrwydd i elfennau prosesu a chontractio'r diwydiant, a hebddynt ni fyddai unrhyw ddiwydiant yng Nghymru. Y contractwyr yw asgwrn cefn yr hyn a wnawn, ac mae angen inni ddarparu swm cyson er mwyn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch buddsoddiadau, nid yn unig mewn peiriannau, ond mewn pobl hefyd. Soniodd Iwan am ba mor bwysig yw hyfforddi ac addysgu'r genhedlaeth nesaf o'r bobl hynny sy'n gweithio gyda'r diwydiant.

60. Trafododd y grŵp ffyrdd o chwalu'r rhwystrau i greu coetiroedd. Efallai y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnig dull hyblyg i ffermwyr ystyried plannu rhagor o goed.

***Cam gweithredu Rhagfyr 06: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r cyflwyniad ynghylch sut mae'r sector coedwigaeth cyhoeddus yn gweithio gydag CNC.***

61. Roedd Gareth yn awyddus i ddeall a oedd gan y banc unrhyw farn ar gyfeiriad y busnes fferm sy'n cael ei ddisgrifio yn yr astudiaeth achos. Soniodd Iwan nad oedd gan y banc unrhyw gwynion amdano. Roedd y busnes ffermio yn anodd, ac roedd y ffermwr yn gallu sicrhau incwm am gyfnodau diffiniedig oherwydd y newidiadau a wnaeth, ond hefyd o ran cynhyrchu pren yn yr hirdymor, sef rhywbeth y gellir ei fesur.

62. Trafododd y grŵp waith contractwyr, a pha mor bwysig yw hi i fodloni gofynion (e.e. iechyd a diogelwch). Os nad ydych yn hapus gyda phrynwr neu gontractwr penodol, ni ddylech chi adael iddynt ymgeisio, oherwydd trwy ymgeisio a phrynu pren, a pheidio â gweithio'n ddiogel, nid ydych yn rhoi cyfle i'r contractwyr da, na'r prynwyr da, lenwi eu melinau.

63. Diolchodd Rhys i'r holl siaradwyr gwadd, a'r grŵp, am y drafodaeth werthfawr hon. Mae wedi bod yn sesiwn ddiddorol iawn ar goedwigaeth a choetiroedd.

## Eitem 8. Unrhyw faterion eraill

64. Bydd cyfarfod penodol o'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth yn cael ei drefnu yn y flwyddyn newydd (dyddiad i'w gadarnhau).

65. Mae'n debygol y bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2025 (dyddiad i'w gadarnhau).

66. Atgoffodd Rhys y grŵp fod eu cyfranogiad yn y fforwm yn hanfodol, ac y dylent gyflwyno eitemau ar gyfer yr agenda a phynciau trafod posibl.

67. Diolchodd Rhys i'r grŵp am eu cyfranogiad, a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

68. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

## Cau'r cyfarfod